CIWB

## Tasg 1

# Dewch i Bessières

Rydych chi'n gweithio i swyddfa twristiaeth Bessières. Rydych chi eisiau perswadio pobl i ddod i aros yn Bessières dros y Pasg ac i ddod i'r Ŵyl Omlet. Ysgrifennwch ddarn ar gyfer y wefan.

Rhaid i chi ddweud:

- ble mae Bessières
- pryd bydd yr ŵyl omlet
- beth fydd yn digwydd
- beth fydd y twristiaid yn gallu gwneud.

Darllenwch y darn ac edrychwch ar y sleidiau a'r ffilm eto i gael gwybodaeth. Chwiliwch ar y we hefyd os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth.

Dyma ychydig o help i chi:

| | |
|---|---|
| ym mis ...<br>ar Ddydd Llun y Pasg<br><br>Bydd ...<br>Bydd y cogyddion yn ...<br>Bydd pobl yn ...<br>Byddan nhw'n ... | in the month of ...<br>on Easter Monday<br><br>There will be ...<br>The chefs will ...<br>People will ...<br>They will ... |

Ydych chi'n cofio sut i berswadio?

- **Dweud pethau da**
- **Defnyddio ansoddeiriau da**
- **Gofyn cwestiynau – i ddenu pobl**
- **Defnyddio gorchmynion – i ddenu pobl**

Mewn grŵp meddyliwch am batrymau a geiriau da ac ysgrifennwch nhw ar ddarn o bapur.

| Geirfa | |
|---|---|
| darn | piece |
| ansoddeiriau | adjectives |
| denu | to attract |
| gorchmynion | commands |